

---

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro a rheoli eiddo gwag. Gallai eiddo gwag gynnwys eiddo sy'n wag yn rhan o strategaeth cynnal a chadw neu werthu arfaethedig, ond hefyd y rhai a ystyrir yn "wagleoedd". Mae gwagle yn eiddo nad oes ganddo denant neu lesddeiliad am gyfnod rhwng meddiannaethau. Gallai hyn fod oherwydd nad yw'r eiddo'n bodloni gofynion cwsmeriaid.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. casglu a chynnal gwybodaeth i roi data gweithredol, rheoli a pherfformiad ar eiddo gwag
2. monitro ac adrodd ar resymau dros eiddo gwag i'ch rheolwr llinell a chydweithwyr perthnasol
3. rheoli eiddo gwag yn unol â'ch gweithdrefnau sefydliadol
4. gweithio gyda chydweithwyr a chontractwyr perthnasol i drefnu bod eiddo gwag yn cael ei wneud yn ddiogel
5. gweithio gyda chydweithwyr a chontractwyr perthnasol i gymryd y camau gofynnol mewn ymateb i broblemau o ran cael gafael ar eiddo
6. trefnu neu ddarparu cyfleoedd ar y cyd i gwsmeriaid fynd i weld eiddo gwag
7. trefnu archwiliadau neu atgyweiriadau yn unol â chanllawiau sefydliadol
8. nodi a chofnodi problemau gyda chyflwr eiddo
9. cymryd y camau gofynnol i gadarnhau bod problemau'n cael eu datrys
10. cadarnhau bod yr eiddo yn bodloni eich safonau sefydliadol ar gyfer eiddo

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y rhesymau dros sicrhau eiddo gwag
2. eich gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer monitro eiddo gwag a rhoi gwybod amdanynt
3. eich gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer trefnu archwiliadau ac atgyweiriadau
4. eich gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd sefydliadol
5. gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer gosod a dyrannu
6. sut i gofnodi'r camau a gymerwyd i wneud eiddo gwag yn ddiogel ac ymateb i broblemau o ran cael gafael ar eiddo
7. targedau perfformiad eich sefydliad ar gyfer rheoli eiddo gwag
8. y rhesymau pam mae'n rhaid i eiddo fodloni safonau iechyd a diogelwch gofynnol
9. terfynau eich cyfrifoldebau eich hun a goblygiadau gweithredu y tu allan i'r terfynau hyn

<b>Datblygwyd gan</b>	Skills CFA
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	29 Maw 2019
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	06 Ion 2024
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Instructus
<b>RCU gwreiddiol</b>	ASTH312
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio
<b>Cyfes/Set</b>	Tai
<b>Geiriau Allweddol</b>	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu